

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol ac Archwilio

Dyddiad: 10 Mawrth 2021

Rhif Union: 01824706204

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO, DYDD MERCHER, 17 MAWRTH 2021** am **9.30 am** yn **VIA VIDEO CONFERENCE**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democritaidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021 (copi'n amgaaedig).

**5 Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL I GYMRU**  
(Tudalennau 19 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (copi'n amgaeedig) hysbysu aelodau am y diffiniad o'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sut y bydd swyddogaethau allweddol yn y Cyngor yn ymaddasu i ystyried y Ddyletswydd, a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r gofynion.

**6 PECYN GWAITH MODEL DARPARU GWASANAETH AMGEN (ASDM)**  
(Tudalennau 55 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (copi'n amgaeedig) ar y Pecyn cymorth Model Darparu Gwasanaeth Amgen (ASDM) ar gyfer y Cyngor

**7 CYNLLUN ARCHWILIO ARCHWILIO CYMRU 2021-22** (Tudalennau 95 - 116)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi'n amgaeedig) ar yr Cynllun Archwilio Archwilio Cymru ar gyfer 2021 - 22.

**8 ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI GRANT 2019/20** (Tudalennau 117 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi crynodeb o ganlyniadau allweddol gwaith ardystio SAC ar grantiau a dychweliadau 2019/20 y Cyngor.

**9 CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL** (Tudalennau 133 - 144)

Derbyn gwybodaeth gan Archwilio Cymru am grynodedd yr Archwiliad Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych (amgaeir copi).

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 145 - 148)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi'n amgaeedig).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu cau allan o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 18 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).

## **11 SEIBERGADERNID YN Y SECTOR CYHOEDDUS** (Tudalennau 149 - 188)

Ystyried adroddiad cyfrinachol ar seibergadernid yn y sector cyhoeddus (copi'n amgaeedig).

### **AELODAETH**

#### **Y Cynghorwyr**

Mabon ap Gwynfor  
Tony Flynn  
Martyn Holland

Alan James  
Barry Mellor  
Joe Welch

#### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a gynhaliwyd dros Zoom ddydd Mercher 27 Ionawr 2021 am 9.30am.

### YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Mabon ap Gwynfor, Tony Flynn, Martyn Holland (Is-gadeirydd), Alan James, Barry Mellor (Cadeirydd) a Joe Welch.

Aelod Lleyg – Paul Whitham

**Aelodau Cabinet** – Y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd; a'r Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth.

**Yn arsylwi** – Y Cyngorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard a Meirick Lloyd Davies.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd – Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo (Swyddog Adran 151) (SG), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Rheolwr Cyllid Ysgolion (CJ), Uwch-archwilydd (LH), Uwch-archwilydd (MPJ), Rheolwr Cefnogi Busnes (PB), Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol (LJ), Swyddog Arweiniol Rheoli Asedau Strategol (TB), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Prif Reolwr Gwasanaethau Cymorth (AL), Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IMG), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), y Cydlynnydd Craffu (RE), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a RTJ).

Roedd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru David Wilson a David Williams hefyd wedi bod yn bresennol.

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorwyr Tony Flynn, Ellie Chard a Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen – Fframwaith herio ac ymyrryd ar gyfer ysgolion mewn trafferthion ariannol – gan eu bod yn Llywodraethwyr Ysgol.

Datganodd y Cyngorydd Barry Mellor gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen – Fframwaith herio ac ymyrryd ar gyfer ysgolion mewn trafferthion ariannol – gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr ysgol yn Sir Ddinbych.

Datganodd yr Aelod Lleyg, Paul Whitham, gysylltiad personol ag eitem 7 ar y rhaglen – Fframwaith herio ac ymyrryd ar gyfer ysgolion mewn trafferthion ariannol – gan fod ganddo ŵyr yn un o ysgolion uwchradd Sir Ddinbych.

### 3 MATERION BRYG

Dim.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020.

Materion yn codi –

- Tudalen 8 – Diweddariad Archwilio Mewnol – Cadarnhawyd bod swydd yr Uwch-archwilydd wedi'i llenwi.
- Tudalen 9 – Diweddariad Archwilio Mewnol – Cadarnhad bod yr archwiliad a oedd wedi'i gynllunio'n dal ar y gweill, heb gychwyn.
- Tudalen 10 – Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019–Mawrth 2020 – Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai'n holi a oedd unrhyw adolygiadau wedi'u cynnal gan AGC ac y byddai'n rhoi ateb i'r Pwyllgor.
- Tudalen 14 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol – Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel cofnod cywir.

### 5 BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i aelodau ar yr agweddau perfformiad a llywodraethu yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ystyried y papur.

Esboniodd yr Arweinydd Tîm mai tri o'r goblygiadau allweddol, sy'n codi o ganllawiau'r strategaeth ddrafft, y dylid eu trafod yw -

- Hunanasesu
- Arolwg rhanddeiliaid blynyddol
- Asesu perfformiad panel

Cyfeiriodd yr Arweinydd Tîm at y disgrifiad manwl o bob un ohonyn nhw yn adran 4 yr adroddiad.

Cyfeiriwyd yn benodol at y pŵer newydd a fyddai gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliad arbennig o'r prif gynghorau sydd ddim o bosibl

yn cwrdd â'u gofynion perfformiad, gan felly roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ailadeiladu, dadadeiladu neu uno cynghorau. Yn y Bil, roedd gofyniad wedi'i gynnwys yn datgan y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio adolygu'r ddogfen hunanasesu yn flynyddol a gallai argymhell newidiadau.



Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad manwl a'r cyflwyniad tryloyw. Rhoddodd yr Arweinydd Tîm fwy o wybodaeth wrth ateb cwestiynau a phryderon yr aelodau ar y materion canlynol -

- Byddai gwaith maes blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau. Datganwyd na fyddai ganddyn nhw rôl mor amlwg ym mherfformiad cyffredinol y Cyngor. Byddai cyfarfodydd misol a thrafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau perfformiad.
- Roedd camau eisoes ar waith i asesu cost y prosesau. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arwain Strategol er mwyn cychwyn y broses a phenderfynu sut i symud ymlaen gyda'r Arolwg Rhanddeiliaid Blynyddol.
- Roedd yr Arweinydd Tîm yn hyderus fod y Cyngor wedi mabwysiadu proses adrodd dryloyw drwy'r swyddogaethau craidd i gyd. Byddai swyddogion yn gallu defnyddio casgliadau a wneir mewn adroddiadau i'w rhoi mewn adroddiad hunanasesu.
- Cadarnhaodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru na fyddai Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau asesiadau Corfforaethol am nifer o flynyddoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad am yr arweiniad cynhwysfawr drwy'r adroddiad a thynnodd sylw at yr holl waith y byddai angen i'r swyddogion ei gwblhau.

Ar ôl y trafodaethau,

***PENDERFYNWYD*** bod yr aelodau wedi darllen a deall goblygiadau'r canllawiau statudol drafft a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.

## **6 BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau. Rhannodd y Swyddog Monitro gyflwyniad. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol yr wythnos flaenorol a'i fod bellach yn Ddeddf. Cytunwyd arno a chafodd ei basio gan y Senedd ym mis Tachwedd 2020. Cadarnhawyd y byddai'r darpariaethau a osodir yn y Ddeddf yn cael eu cyflwyno'n raddol. Byddai nifer o adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r aelodau pan fo angen.

Rhoddodd y Swyddog Monitro fwy o wybodaeth i'r aelodau am yr adrannau canlynol -

Trefniadau etholiadol – Cadarnhad bod y Ddeddf yn ymestyn yr etholfraint mewn etholiadau lleol i rai 16 ac 17 mlwydd oed a dinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn galluogi cynghorau i ddewis rhwng system bleidleisio 'y cyntaf i'r felin' neu'r 'system pleidlais sengl drosglwyddadwy'. Byddai newid y drefn bresennol yn galw am benderfyniad gan y Cyngor Sir llawn. Byddai'r cylch etholiad yn mynd yn gylch pum mlynedd yn ffurfiol. Roedd diddymu ffioedd y Swyddog Canlyniadau wedi ei gynnwys.

Pŵer cymhwysedd cyffredinol – ar hyn o bryd gall Awdurdodau Lleol weithredu dan amgylchiadau lle bydd ganddynt hawl ffurfiol i wneud hynny yn ôl deddfwriaeth yn unig. Nod y pŵer cyffredinol yw eu galluogi i weithredu oni bai eu bod wedi eu gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny yn ôl deddfwriaeth.

Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol – pwysleisiwyd y byddai gan Gyngor Sir Ddinbych ddyletswydd i ymgysylltu â thrigolion lleol a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith llywodraeth leol. Roedd fersiwn derfynol y Ddeddf yn cynnwys yr angen i ddarlledu rhai cyfarfodydd. Cadarnhawyd y byddai hyblygrwydd cyfarfodydd o bell yn parhau.

Llywodraethu democrataidd ac arweinyddiaeth – Nodai'r Ddeddf bod yn rhaid i bob Awdurdod Lleol benodi Prif Weithredwr. Byddai'r rôl yn cynnwys nifer o ddyletswyddau a gofynion yn ymwneud â threfniadau ariannol, trefniadau rheoli risg, adnoddau a staffio.

Y gofyn i gynnwys trefniadau o fewn y cyfansoddiad i alluogi'r Cyngor i ethol mwy nag un person fel cyd-Arweinydd a rhannu swyddi yn y Cabinet. Roedd cyflwyno dirprwyon penodedig i'r Cabinet hefyd wedi ei gynnwys, a disgwylir canllawiau pellach.

Gweithio Cydweithredol – Bydd yn rhaid i'r Cyngor roi sylw i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymwneud â gwaith lles economaidd, cludiant, cynllunio strategol a gwella ysgolion, er nad yw'r cynigion presennol yn cynnwys gwella ysgolion.

Perfformiad a llywodraethu – Mae'r Ddeddf yn datgan mai 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' y dylai'r pwyllgor gael ei alw. Cadarnhad y byddai newid i'r aelodaeth rhagnodedig a Chadeiryddiaeth y pwyllgor. Byddai'r newid yn cynnwys aelodau lleyg annibynnol i gynrychioli un traean o'r pwyllgor a byddai'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg annibynnol. Nid oedd dyddiad y newid i'r aelodaeth wedi ei gadarnhau.

Uno ac ailstrwythuro – Cadarnhad y byddai uno gwirfoddol yn dal i fodoli. Gallai Gweinidogion Cymru wneud 'rheoliadau ailstrwythuro' o fewn y Ddeddf. Byddai'r pwerau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn dilyn adroddiad archwiliad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unig, neu gais diddymu gan gyngor.

Dywedodd y Swyddog Monitro eu bod yn disgwyl am lawer mwy o wybodaeth ac y byddai ar gael yn raddol yn ystod y misoedd nesaf, a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r pwyllgor pan fydd yr wybodaeth ar gael. Gofynnodd y Swyddog Monitro am farn yr aelodau ar greu gweithgor i adolygu sut y rhoddir y Ddeddf ar waith a'r newidiadau angenrheidiol. Cadarnhad y byddai gwybodaeth a diweddariadau'n cael eu rhannu â'r aelodau pan fydden nhw ar gael.

Yn ystod y cyflwyniad wedi hynny, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i holi cwestiynau a thrafod sawl agwedd o'r adroddiad. Roedd y prif bwyntiau trafod yn canolbwyntio ar y materion canlynol –

- Cytunai'r aelodau y byddai'n fuddiol i gael gweithgor swyddogion/aelodau i edrych ar ddatblygiad y Ddeddf. Dywedodd yr Aelod Lleyg Paul Witham y byddai'n hapus i gynorthwyo swyddogion gyda'r broses.
- Y ddyletswydd a fyddai'n cael ei gosod ar yr awdurdod lleol i drefnu'r asesiad panel. Mae'n debyg y byddai canllawiau ar gael mewn da bryd er mwyn esbonio sut i gynnal yr asesiad.
- Y ddyletswydd statudol i arweinwyr grŵp hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel yn y grŵp. Ni chyfeiriwyd at sancsiynau hyd yma. Gobeithir y bydd mwy o ganllawiau'n cael eu darparu.
- Cadarnhad y byddai amserlen yn cael ei chwblhau o bryd byddai agweddau o'r Ddeddf yn cael eu gwneud yn gyfraith a byddai'n cael ei rhannu â'r aelodau. Cadarnhawyd y byddai'n rhaid rhoi rhai agweddau o'r Ddeddf gerbron y pwyllgor hwn a'r Cyngor llawn.
- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n holi a yw'r gostyngiad yn oedran yr unigolion sy'n cael pleidleisio yn eu galluogi i sefyll mewn etholiad a byddai'n adrodd yn ôl i'r aelodau.
- Mae'r ddyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd yn cynnwys annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn etholiadau a phrosesau llunio penderfyniadau.
- Nid yw'r Ddeddf yn newid y gweithdrefnau presennol ar gyfer cyfethol ar Gyngorau Tref, Dinas a Chymuned. Byddai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gael i gynghorau cymuned cymwys, gan dybio eu bod yn gymwys i wneud hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei gyflwyniad manwl a'r atebion eglur i gwestiynau a phryderon yr aelodau.

Felly,

**PENDERFYNWYD** bod aelodau wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'u bod yn cefnogi'r cynnig i gael gweithgor swyddogion/aelodau i oruchwylio sut rhoddir y Ddeddf ar waith.

## **7 FFRAMWAITH HERIO AC YMYRRYD AR GYFER YSGOLION MEWN TRAFFERTHION ARIANNOL (SIFD)**

Arweiniodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd yr aelodau drwy'r adroddiad diweddar (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Cadarnhawyd bod CSDd ar hyn o bryd yn dirprwyo 85% o gyllideb ysgolion yn uniongyrchol i ysgolion. Roedd yn ddyletswydd ar bob ysgol i ddarparu cynllun cyllideb tair blynedd i CSDd bob blwyddyn. Esboniwyd y gallai ysgolion ar adegau ddioddef problemau ariannol, roedd gan CSDd y ddarpariaeth i drwyddedu diffyg i gefnogi ysgolion i ddychwelyd i gyllideb dros ben. Roedd cydweithio agos â phob ysgol o fewn CSDd wedi parhau.

Yn yr adroddiad fel Atodiad 1, oedd y fframwaith herio ac ymyrryd. Atgoffodd yr Aelod Arweiniol yr aelodau ei fod wedi'i ddwyn gerbron y pwyllgor ym mis Tachwedd 2017. Roedd yr adroddiad heddiw wedi'i gyflwyno i'r aelodau i ddangos sut roedd y broses wedi gweithio.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo wybodaeth am rôl CSDd a chyrrff llywodraethu ysgolion. Cyfrifoldeb cyrrff llywodraethu'r ysgolion oedd cyllidebu cyllideb flynyddol yr ysgol. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid ac

Eiddo ei fod yn fodlon ar y broses a'r gwaith a oedd wedi digwydd gydag ysgolion mewn trafferthion ariannol. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllido Ysgolion fod ymweliadau i ysgolion deirgwaith y flwyddyn wedi parhau er mwyn cael gwybodaeth ac i gefnogi ysgolion. Derbyniwyd y broses o weithredu'r fframwaith yn gadarnhaol ac roedd yn gweithio'n dda.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau –

- Roedd y diffiniad o 'ysgol fach' yn anodd iawn. Diffiniad Cyngor Sir Ddinbych fyddai ysgol â 50 o ddisgyblion neu lai.
- Cyfrifwyd yr addasiad demograffeg ym mis Medi gan ddefnyddio'r data CYBLD a ddarparwyd gan ysgolion. Mae'n gyfrifiad manwl a gwblhawyd bob blwyddyn.
- Cadarnhawyd nad oedd gan CSDd unrhyw fwriad i gau ysgolion llai. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo i wneud hynny, byddai cyfathrebu'n digwydd.
- Roedd CSDd yn dal i dderbyn nifer o grantiau ar gyfer ysgolion ac addysg. Cadarnhawyd mai'r ddau brif grant a dderbyniwyd oedd grant Grantiau Datblygu Disgyblion (prydau ysgol am ddim) a grant chweched dosbarth.
- Nid oedd y Rheolwr Cyllido Ysgolion yn ymwybodol o unrhyw gyllid loteri oedd ar gael. Byddai'n holi am unrhyw wybodaeth bellach ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.
- Roedd nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y gostyngiad yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, cadarnhawyd bod nifer y myfyrwyr a oedd yn mynychu'r ysgol wedi gwella.
- Pwysleisiwyd gyda chydweithio agos â swyddogion a chynlluniau gweithredu ar waith, gallai ysgolion barhau i reoli cyllidebau unigol tra'u bod mewn diffyg.
- Cadarnhawyd pe bai gan swyddogion bryderon nad oedd ysgolion wedi gwrandao ar swyddogion cyllid nac wedi gweithredu'r cynllun, y byddai'r mater yn cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i fynd i'r afael ag ef. Pe bai swyddogion yn teimlo gwelliant ac y byddai'r cynllun yn cefnogi'r ysgol i warged, byddai swyddogion yn monitro.
- Roedd niferoedd disgyblion newydd Ysgol Crist y Gair wedi bod yn isel ar gyfer maint yr ysgol. Roedd nifer y disgyblion a oedd yn mynd i'r ysgol yn cynyddu'n gyflym. Roedd rheolwr cyllido'r ysgol yn hyderus gyda'r cynnydd mewn disgyblion, byddai cyllideb yr ysgol yn symud allan o ddiffyg.

Yn dilyn y drafodaeth,

**PENDERFYNWYD** y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

Ar y pwynt hwn (11:50 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 hanner dydd.

## **8 RHEOLI'R TRYSORLYS**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd Adroddiad y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol (TMSS) 2021/22 (Atodiad 1 – cylchredwyd

yn flaenorol) a oedd yn dangos sut y byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthycu am y flwyddyn i ddod ac yn amlinellu'r Polisiâu y mae'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Mae'r Adroddiad Diweddarau ar Reoli Trysorlys (atodiad 2) yn rhoi manylion am weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2020/21.

Mae Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad hwn cyn y caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2021.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Eiddo sylw at nifer o bwyntiau arwyddocaol yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriad at y graffiau buddsoddi a benthycu a gynhwyswyd yn atodiad 1 y papurau. Gwelwyd uchafbwynt bach ar ddechrau'r flwyddyn ar y graff buddsoddi ac roedd wedi bod o ganlyniad i ddatrys taliadau grantiau busnes a rhyddhad ardrethi. Byddai angen cyfathrebu â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddyfeisio pecyn a oedd yn caniatáu i Adran Gyllid Cyngor Sir Ddinbych gynllunio llif arian rheoli'r trysorlys yn y ffordd orau.

Pwysleisiwyd i'r aelodau mai cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys oedd sicrhau diogelwch yr adnoddau, yr hylifedd a'r cynnyrch o fuddsoddiad. Cadarnhawyd bod y ffocws ar hyn o bryd wedi bod ar ddiogelwch y buddsoddiadau.

Arweiniwyd yr Aelodau at adran 4 o atodiad 2 ynghylch newid y rheoliadau i Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a chyfraddau benthycu. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw weithgarwch o'r math hwn wedi digwydd.

Codwyd y materion canlynol yn ystod trafodaethau -

- Cadarnhaodd swyddogion fod lefel y benthycu yn dderbyniol ar hyn o bryd Clywodd yr Aelodau fod lefel o fenthycu'n cael ei bennu'n flynyddol. Gosodwyd paramedrau i swyddogion i reoli swm penodol o fenthycu yn broffesiynol.
- Talodd Llywodraeth Cymru nifer o gynlluniau ymlaen llaw gyda thaliadau dilynol yn ddiweddarach. Roedd y grant cynnal refeniw wedi'i dalu'n rhannol ymlaen llaw gan gynorthwyo'r llif arian o fewn y Cyngor. Cadarnhawyd bod cyllid wedi'i ad-dalu drwy'r hawliad colli incwm chwarterol gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiwyd bod y cynllun gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol dros y misoedd blaenorol.
- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyllid ac Eiddo fod cymalau cosb ar gyfer talu benthyciadau presennol fel arfer yn drech nag unrhyw fudd mewn cyfraddau llog.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor yn nodi Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22, a'r dangosyddion Darbodus o 2021/22 i 2022/23. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Diweddarau Rheoli Trysorlys ac yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau.

## 9 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL – DIWEDDARIAD O RAN GWELLA

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau gwella a oedd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2020 ac fe'i cynhwyswyd fel rhan o'r Datganiad o Gyfrifon a gyflwynwyd i'r Aelodau ym mis Medi 2020.

Roedd diweddariad i gynnydd y camau gweithredu wedi'i gynnwys yn atodiad 1 i'r adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol). Cadarnhawyd bod yr holl gamau gweithredu wedi gwneud cynnydd. Roedd rhai o'r dyddiadau cyflawni wedi cael eu hadolygu. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21 sydd i'w gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Ebrill 2021.

Roedd yr Aelodau'n falch o gael yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Archwilydd Mewnol a diolchwyd iddi am yr adroddiad.

Felly:

***PENDERFYNWYD y byddai'r aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.***

## 10 ARCHWILIAD RHEOLI CONTRACT – CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG

Arweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) gan y Prif Archwilydd Mewnol. Esboniwyd i'r pwyllgor fod adroddiad sicrwydd isel wedi'i gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2020 bod nifer o'r camau gweithredu wedi'u dyrannu i'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol i'w gweithredu. Oherwydd Covid-19 roedd y ffrwd waith wedi'i gohirio. Cytunwyd i archwilio'r cynllun gweithredu i sicrhau ei fod yn realistig, roedd y cynllun gweithredu wedi'i atodi fel atodiad 1 (a ddsbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn rhoi swyddogion a enwyd i weithredu'r camau gweithredu, gyda therfyn amser yn adlewyrchu'r cam gweithredu. Roedd y dyddiadau wedi'u diwygio i ganiatáu amserlen realistig ar gyfer gweithredu.

Cynigiodd y Swyddog Monitro ei ddiolch i'r tîm Archwilio a'r Prif Swyddog Ariannol am y gwaith a wnaed i'r cynllun gweithredu. Hysbyswyd yr Aelodau o'r gwaith manwl a oedd wedi'i wneud.

Pwysleisiodd yr aelod lleyg Paul Witham bwysigrwydd rheoli contractau'n gryf. Mae cais i ymgorffori'r holl gontractau, adeiladu a heb fod yn waith adeiladu wedi'i gynnwys yn yr amserlen hyfforddi. Er mwyn sicrhau bod pob contract yn cael ei drin yn gyfartal. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro mai'r bwriad oedd i bob contract gael ei drin yn gyfartal ac i arferion gorau gael eu rhannu. Roedd y rheolwr cytundebau wedi cael ei gynghori i lanlwytho contractau i'r model Proactis. Nodwyd mater ynghylch yr argaeledd i lanlwytho hen gontractau, hysbyswyd yr aelodau bod hyn yn cael ei ymchwilio.

***PENDERFYNWYD bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a bod adroddiad diweddarau yn cael ei gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.***

## 11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) i'w hystyried.

Cytunwyd y dylid cynnwys yr adroddiadau canlynol ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgor:

17 Mawrth 2021 -

- Adroddiad dilynol ar y Denantiaeth Tai yn dilyn adroddiad sicrwydd isel yr adroddwyd yn ei gylch yn flaenorol.
- Adroddiad dilynol ar Ddiwydiant (y) Cardiau Talu yn dilyn adroddiad sicrwydd isel yr adroddwyd yn ei gylch yn flaenorol.

28 Ebrill 2021 -

- Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft

9 Mehefin 2021 -

- Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol
- Diweddariad Rheoli Contractau

28 Gorffennaf -

- Rheoli Trysorlys
- Polisi twyll a llygredigaeth
- Diweddariad Archwilio Mewnol ar Ddigartrefedd

Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnwys y diweddariad am y Ddeddf Llywodraeth Leol o dan eitemau yn y dyfodol, i'w gynnwys ar yr agenda pan fo angen.

***PENDERFYNWYD*** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

## 12 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd y Tîm Archwilio Mewnol o safbwynt darparu'r gwasanaeth, sicrwydd darparu, adolygiadau wedi eu cwblhau, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth gyflawni gwelliant. Roedd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd gydag Arfer Da CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

Roedd y tîm archwilio mewnol wedi parhau i ddarparu cyngor a chymorth mewn perthynas â newidiadau i drefniadau rheoli y bu'n rhaid i'r Cyngor eu gweithredu mewn ymateb i'r pandemig. Cafwyd cadarnhad bod yr archwiliadau arfaethedig wedi'u blaenoriaethu ar gyfer 2020/21 fel yr adroddwyd i'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2020 ac, er bod ymgysylltiad o wasanaethau yn dda ar y cyfan, parhaodd Covid-19 i effeithio ar gyflymder a dilyniant rhai o'n harchwiliadau.

Amlygwyd i'r aelodau bod y Cynllun Archwilio yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd, yn ogystal â'r cynnydd o ran cyflawni gwaith sicrwydd, i fesur a all y Prif

Archwilydd Mewnol ffurfio Barn Flynyddol ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol heb unrhyw gyfyngiadau o ran cwmpas. Roedd CIPFA wedi rhyddhau canllawiau'n ddiweddar ar gyfer darparu Barn Flynyddol gyda Chyfyngiadau Cwmpas a fyddai'n cael eu defnyddio pe bai angen.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y gwaith a oedd wedi cael ei wneud gan Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Roedd yn caniatáu'r pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd Archwilio Mewnol yn ogystal â rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol. Rhoddwyd cadarnhad i'r aelodau bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus gyda phenodi Uwch Archwilydd newydd. Cafwyd cadarnhad hefyd na fydd yr adnoddau sydd ar gael i'r Prif Archwilydd Mewnol yn cael eu lleihau, felly bydd y broses recriwtio i lenwi swydd wag yr Archwilydd yn cael ei chychwyn cyn bo hir.

Cadarnhad bod 6 Archwiliad wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Atgoffwyd yr Aelodau bod manylion pob un o'r archwiliadau wedi'u cynnwys yn atodiad 1 i'r adroddiad. Cyflwynwyd cefndir byr o bob archwiliad i'r pwyllgor -  
Darparu Llety i'r Digartref  
Recriwtio a Chadw  
Ysgol Pendref  
Diwylliant Moesegol  
Adeiladau'r Frenhines  
Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol nad oedd tri archwiliad wedi dechrau eto ond eu bod wedi cael blaenoriaeth i ddechrau yn ystod y misoedd nesaf. Roedd yr archwiliadau allweddol hyn yn helpu i wneud cynnydd o ran darparu sicrwydd archwilio mewnol. Y rhain oedd:

- Hamdden Sir Ddinbych Cyf
- Capasiti a Gwydnwch TGCh
- Rheoli Risg – risgiau corfforaethol nad ydynt yn dod o dan archwiliadau eraill.

Roedd yr hyfforddiant a drefnwyd gyda CIPFA ar "Sut i fod yn bwyllgor archwilio mwy effeithiol" wedi'i ohirio dros dro oherwydd pandemig y coronafeirws. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai cyfathrebu'n parhau i holi a fyddai unrhyw hyfforddiant o bell yn bosibl.

Trafodaeth gyffredinol -

- Gofynnodd yr Aelodau i'r hunanasesiad yn erbyn Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.
- Cafwyd cadarnhad bod yr archwiliad digartrefedd wedi'i gwblhau cyn y pandemig. Nid oedd yr Aelodau'n cytuno â defnyddio gwestai a lletai gwely a brechwast ar gyfer y digartref. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar opsiynau o gynnig llety i breswylwyr a theuluoedd. Cadarnhawyd bod nifer o adroddiadau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i drafod y ddarpariaeth digartrefedd yn Sir Ddinbych. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi cytuno ar adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nhymor yr Hydref. Gallai Aelodau ofyn i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion ystyried manylion penodol drwy lenwi'r



ffurflen briodol. Cytunodd y Swyddog Monitro i gyfathrebu â'r Cydlynnydd Craffu i gynnwys yr adroddiad archwilio fel rhan o'r adroddiad digartrefedd a gyflwynwyd i graffu arno.

- Clywodd yr Aelodau, oherwydd rhai amgylchiadau megis anghenion amgylcheddol arbennig, trais domestig neu ffactorau eraill, fod nifer o drigolion o siroedd eraill yn byw yn Sir Ddinbych ac fel arall. Nodwyd hefyd bod gan Sir Ddinbych ac awdurdodau lleol eraill ddyletswydd gofal i ddarparu llety addas i unigolion.

## **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd o dan Atodiad 3 yr Archwiliad Mewnol – Adeiladau'r Frenhines –

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod, dan ddarpariaethau Adran 100(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Cyflwynwyd atodiad cyfrinachol gan y Prif Archwilydd Mewnol. Roedd yr atodiad wedi'i gyflwyno i'r aelodau i'w drafod gan ei fod wedi derbyn adroddiad archwilio sicrwydd isel. Roedd cwmpas yr adolygiad yn cwmpasu'r meysydd canlynol: rolau a chyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu; cyllid a chyllid grant; a chyflawni prosiectau a rheoli risg. Roedd y prosiect wedi bod yn elfen o Fwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl fel rhan o gylch gwaith ehangach i adfywio canol y dref.

Trafododd yr Aelodau ganlyniadau'r adroddiad archwilio ar reoli prosiect Adeiladau'r Frenhines gan gynnwys y cynllun gweithredu. Mynegodd yr Aelodau bryderon am yr adroddiad archwilio a'r canfyddiadau. Gofynnodd yr Aelodau am i adroddiad diweddar gael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor i sicrhau'r aelodau bod y cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau.

### **PENDERFYNWYD -**

- Bod y pwyllgor yn nodi cynnydd a pherfformiad yr Archwiliad Mewnol a,
- Bod adroddiad diweddar ar Adeiladau'r Frenhines yn cael ei ddwyn yn ôl i'r pwyllgor.

## **13 ADRODDIAD BLYNYDDOL – POLISI RHANNU PRYDERON**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd o dan y Polisi Rhannu Pryderon a thrafod yr atodiad cyfrinachol -

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod, dan ddarpariaethau Adran 100(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 13 Rhan 4, Atodlen 12A o'r Ddeddf.

Adroddiad gan y Swyddog Monitro, a oedd yn rhoi gwybodaeth yn ymwneud â gweithredu polisi Rhannu Pryderon y Cyngor.

Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno'n unol â Pholisi Rhannu Pryderon y Cyngor, a oedd yn cynnwys gofyniad i'r Swyddog Monitro gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o leiaf unwaith y flwyddyn ar weithrediad y Polisi, ac unrhyw newidiadau mewn ymarfer a gyflwynwyd o ganlyniad i bryderon a godwyd o dan y Polisi.

Roedd yr adroddiad wedi'i drefnu'n wreiddiol i ddod i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020, ond cafodd ei ohirio gan y pandemig a gwnaed y penderfyniad i gyflwyno adroddiad am ddwy flynedd, y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2018 a 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn codwyd chwe phryder newydd o dan y Polisi.

Rhoddodd y Swyddog Monitro gefndir cryno i aelodau am y chwe phryder a godwyd. Roedd yn braf gweld fod pobl wedi nodi unrhyw bryderon gan ei fod wedi dangos dealltwriaeth o'r polisi Rhannu Pryderon.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00 p.m.**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

**Dyddiad y cyfarfod:** 17 Mawrth 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Y Cynghorydd Richard Mainon/ Nicola Kneale – Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol

**Awdur yr Adroddiad:** Carol Evans, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

**Teitl** Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i Gymru

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i Gymru, a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (y Pwyllgor o hyn ymlaen) am y diffiniad o'r Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sut y bydd swyddogaethau allweddol yn y Cyngor yn ymaddasu i ystyried y Ddyletswydd, a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r gofynion.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau y tu ôl i'r Ddyletswydd, ei diffiniadau, yn ymrwymo i roi sylw dyledus i'r Ddyletswydd, ac yn gofyn i bob Aelod mewn pwyllgorau, a swyddogion sy'n mynychu'r pwyllgorau hynny i wneud hynny.

3.2. Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r swyddogaethau craidd sy'n addasu i'r Ddyletswydd ac yn sicrhau bod yr addasiadau'n cael eu gwneud (gweler 4.3 isod am restr o swyddogaethau craidd).

3.3. Bod aelodau Pwyllgor yn:

- Arolygu Asesiadau o'r Effaith ar Les mewn perthynas ag anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol / tlodi.
- Sicrhau eu bod yn cymryd perchnogaeth dros Asesiadau o'r Effaith ar Les y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Herio swyddogion i ddarparu tystiolaeth neu gymryd camau i lenwi bylchau gwybodaeth mewn Asesiadau o'r Effaith ar Les a herio casgliadau'r Asesiadau, gan ofyn i Swyddogion a yw eu casgliadau'n gywir / yn debygol o fod yn gywir.
- Osgoi a herio tuedd obeithiol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cychwyn Adrannau 1 i 3 o'r Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- 4.2. Fel Awdurdod lleol, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- 4.3. Bydd hyfforddiant cyffredinol yn cael ei gynnig i'r holl Aelodau a swyddogion, yn unol â'r manylion yn 4.4 isod. Gweler y cyflwyniad sydd ynghlwm yn Atodiad A sy'n cael ei ddefnyddio mewn hyfforddiant. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau briffio gyda swyddogion sy'n arwain ar fframweithiau gwneud penderfyniadau penodol er mwyn sicrhau bod y fframweithiau hyn yn adlewyrchu'r Ddyletswydd, sef:
- Cynllunio Strategol (E-ddysgu ar Gydraddoldeb, Asesiad o Effaith ar Les, Cydraddoldeb ar y dudalen we)
  - Cyllid ac Asedau (Strategaeth Rheoli Asedau a Datganiadau Landlordiaid y Sir, Achos Busnes SIG)
  - Cyfathrebu ac Ymgysylltu
  - Archwilio Mewnol
  - Caffael

- Gwasanaethau Democrataidd (Adroddiadau Pwyllgorau, hyfforddiant Aelodau)
- Polisi Cynllunio
- Adnoddau Dynol

4.4. Gweler y cerrig milltir a chynllun cyfathrebu allweddol isod:

### **Amserlen / Cynllun Cyfathrebu**

<b>Dyddiad</b>	<b>Gweithgaredd</b>
15 Ionawr	Diweddariad ar gyfer modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb (sy'n ymddangos yn y cyflwyniad corfforaethol)
26 Ionawr	Fersiwn newydd o'r Asesiad o'r Effaith ar Les ar y we wedi'i ryddhau ar y fewnrwyd
Yn fuan yn Chwefror	Diweddariad ar gyfer tudalennau gwe ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
18 Chwefror	Papur briffio i'r Aelodau (i gynnwys crynodeb o newidiadau i'r Asesiad o'r Effaith ar Les)
19 Chwefror trwy e-bost	Papur briffio i'r Cabinet (i gynnwys crynodeb o newidiadau i'r Asesiad o'r Effaith ar Les)
26 Chwefror trwy e-bost	Papur briffio i'r SLT (i gynnwys crynodeb o newidiadau i'r Asesiad o'r Effaith ar Les)
Yn fuan yn Chwefror	Hysbysiad ar Linc / Hysbysiad ar Visiontime: ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd a'r gofynion
11 Mawrth	Papur Briffio ar gyfer y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu

17 Mawrth	Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (i gynnwys crynodeb o newidiadau i'r Aseiad o'r Effaith ar Les)
18 a 22 Mawrth	Sesiynau i'r Staff (i gynnwys crynodeb o newidiadau i'r Aseiad o'r Effaith ar Les)

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a bydd yn cyfrannu at ein blaenoriaeth Cymunedau Cydnerth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol wrth ymgorffori'r Ddyletswydd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau a chraffu'r Cyngor. Bydd addasiadau o fewn yr adnoddau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Aseiad o'r Effaith ar Les ar gyfer mabwysiadu'r Ddyletswydd ei hun, ac mae'r holl benderfyniadau a wneir yn cynnwys defnyddio Aseiad o'r Effaith ar Les ar gyfer pob prosiect a wneir.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu ag Aelodau'r Cabinet, yr Uwch Dîm Arwain a Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu hyd yma.

8.2. Mae'r Cynllun Cyfathrebu (uchod yn 4.4) yn cynnig canllawiau ar sut y caiff y Ddyletswydd ei gweithredu o fewn y Cyngor.

8.3. Mae swyddogion arweiniol ar gyfer swyddogaethau gwneud penderfyniadau allweddol wedi cael eu briffio ar y Ddyletswydd a'i gofynion, a byddant yn addasu polisïau fel y bo'n briodol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Does dim angen Datganiad.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg bod yr ystyriaeth a roddir i'r Ddyletswydd hon yn dameidiog. Gallai hyn arwain at golli cyfleoedd i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol, a/neu risg o dorri'r ddeddfwriaeth. Er mwyn lliniaru hyn, mae'n bwysig ystyried pa mor effeithiol y mae swyddogion ac aelodau yn defnyddio dulliau fel Asesiadau o'r Effaith ar Les a gweithgareddau Ymgysylltu i helpu i ddatblygu a chraffu ar benderfyniadau strategol, ac a ellid gwneud unrhyw welliannau.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cydraddoldeb 2010;

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Preparing for commencement of the Socio-economic Duty

We wish to share with you today general information from Welsh Government to raise awareness of the Socio-economic Duty, contributing to a more equal Wales.

Tudalen 25

# The declaration and intent

The commencing of the socio-economic duty is a commitment from the First Minister's election manifesto.

The duty will be a key mechanism in planning Wales's recovery from the impact of Covid- 19, making sure that we support the most vulnerable people in our communities and Build Back Better.

# Legal Information

- Section 45 of the [Wales Act 2017](#) devolves the power to Welsh Ministers to commence the socio-economic duty to the Welsh Government. This involves enacting Part 1, Section 1 of the [Equality Act 2010](#) – the socio-economic duty.
- The Equality Act 2010 is a UK piece of legislation and Welsh Ministers do not have the power to change this.
- The duty will apply to eligible public bodies, who are deemed to have satisfied the ‘test’ under section 2(6) of the Equality Act 2010, it will come into force on the 31st March 2021.

# The requirement on public bodies

What does the socio-economic duty require public bodies to do?

It requires **specified** public bodies, when making **strategic decisions** such as ‘deciding priorities and setting objectives’, **to consider** how their decisions might help to reduce the **inequalities** associated with **socio-economic disadvantage**.

# Defining the key terms

We will consider what each of the following key terms mean when implementing the duty.

Decisions of a strategic nature;

To consider;

Inequalities of outcome;

Socio-economic disadvantage.

# Decisions of a strategic nature

*“In general, strategic decisions will be those which effect how the relevant public body fulfils its intended statutory purpose (its functions in regards to the set of powers and duties that it uses to perform its remit) over a significant period of time and will not include routine ‘day to day’ decisions.”*

For some public bodies, such decisions may only be taken annually, in other cases, they will come up more often.

The duty will apply to both new **strategic decisions** and when reviewing previous strategic decisions.

# To consider

*“Giving weight to a particular issue in proportion to its relevance.”*

Due regard is an established legal concept in equalities law. The concept of due regard should be well understood by public bodies in relation to the public sector equality duty. It means giving weight to a particular issue in proportion to its relevance. We would expect the same principles to apply to this duty.

Existing practice for demonstrating consideration should be used. This might include impact assessment processes, systems for engagement and community involvement and use of local evidence and data.

# Inequalities of outcome

- *“Inequality of outcome relates to any measurable differences in outcome between those who have experienced socio-economic disadvantage and the rest of the population.”*
- Relevant public bodies will be in a position to influence specific socio-economic inequalities – they should understand where they can have the greatest positive impact.



# Inequalities of outcome / ....

There are a range of ways in which relevant public bodies can build this awareness as they will already have access to a wide range of relevant quantitative data and other evidence including: (not an exhaustive list):

The Welsh Government's Future Trends report;

The Welsh Government's Well-being of Wales report;

The Equality and Human Rights Commission (EHRC)'s report, 'Is Wales Fairer?'


# Socio-economic disadvantage

- *“Living in less favourable social and economic circumstances than others in the same society.”*
- **Communities of place** refers to people who are linked together because of where they reside, work, visit or otherwise spend a substantial portion of their time.
- **Communities of interest** – those who share one or more of the protected characteristics listed in the Equality Act 2010 can be considered communities of interest.
- **Socio-economic disadvantage** can be disproportionate in both **communities of interest and communities of place**, leading to further inequality of outcome, which can be further exasperated when considering **intersectionality**.

# Examples of the inequalities of outcomes arising from socio-economic disadvantage

Relevant public bodies need to consider how their strategic decisions can improve inequality of outcome for people who suffer socio-economic disadvantage.

Tudalen 35



# Working in a holistic way

There are opportunities to consider the Socio-economic Duty through other duties and through our Council functions. For example:

## Public Sector Equality Duty

- Setting strategic objectives that relate to protected characteristics and poverty.
- Including socio-economic status as part of an Equality Impact Assessment.
- Consulting with people living in poverty as part of engagement under the Public Sector Equality Duty (PSED).
- Data collection identifies what groups of people are most likely to be living in poverty.

## Well-being of Future Generations (Wales) Act

- Application of the 5 ways of working.
- Setting objectives that contribute to A More Equal Wales.

# Working in a holistic way...

## Council Functions

- Strategic Planning (E-learning on Equalities, Well-being Impact Assessment, Equality content on web page)
- Finance & Assets (Asset Management Strategy & County Landlord Statements, SIG Business Case)
- Communications & Engagement
- Internal Audit
- Procurement
- Democratic Services (Committee Reports, Member training)
- Planning Policy
- HR

# In summary.....


The overall aim of the duty is to deliver better outcomes for those who experience socio-economic disadvantage.

The Socio-economic Duty will support this through ensuring that those taking strategic decisions:

- Take account of evidence and potential impact through consultation and engagement.
- Understand the views and needs of those impacted by the decision, particularly those who suffer socio-economic disadvantage.
- Welcome challenge and scrutiny.
- Drive a change in the way that decisions are made and the way that decision makers operate.

# Preparing to meet the Duty

In preparing for the duty is it recommended that the relevant public bodies follow the four steps below:



# Meeting the duty on a day to day basis

An example of a 5 stage approach that Denbighshire County Council can take to meet the duty on a day- to-day basis.

## Stage 1 (Planning)

- Is the decision a strategic decision?

## Stage 2 (Evidence)

- What evidence do we have about socio-economic disadvantage and inequalities of outcome in relation to this decision?
- Have we engaged with those effected by the decision?
- Have we considered communities and places of interest?



# Meeting the duty on a day to day basis / ...

## Stage 3 (Assessment and Improvement)

- What are the main impacts of the proposal?
- How can the proposal be improved so it reduces inequalities of outcome as a result of socio- economic disadvantage?
- Have we considered communities and places of interest?

## Stage 4 (Strategic decision making)

- This stage is for decision makers (for example, Cabinet, Senior Leadership Team, Members, board executives and committee members) to confirm that due regard has been given.

# Meeting the duty on a day to day basis / ...

## Stage 4 /...

- They must be satisfied that we have understood the evidence and the likely impact, and have considered whether the policy can be changed to reduce inequality of outcome as a result of socioeconomic disadvantage.

## Stage 5

- This stage is how the process of evidencing and recording how 'due regard' has been given. At this stage changes to the decision should be made and recorded.

# What is in place for Denbighshire County Council?

## Integration of the duty into our existing processes through the following:

- Taking an integrated approach to impact assessment.
- Taking a broader approach to engagement and involvement to include socio-economic disadvantage.
- Developing scrutiny frameworks to include inspection of impact with respect to inequality of outcome that results from socio-economic disadvantage / poverty.
- Taking an integrated approach to planning and reporting.
- Developing Integrated performance measures (use of EHRC for a performance framework).
- Considering prevention of inequalities of outcome caused by socio-economic disadvantage through application of the Well-being of Future Generations Act's five ways of working (also covered in our WIA).

# Socio-economic duty and Denbighshire County Council

## Procuring a Service

As the Council is subject to the duty, the duty remains with us. Therefore, the requirement to meet the duty does not pass to a third party through procurement, commissioning or outsourcing.

## Working in Partnerships

- 34 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2021 yn **Arddangosyn 5**. Nid oes unrhyw gynnydd i hon o'i chymharu â'ch ffi wirioneddol ar gyfer 2020. (Sylwer bod ein Cynllun Ffioedd yn dal i fod yn destun cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cyllid ac felly mae'r ffi arfaethedig hon yn dal i fod yn destun cymedroli terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd.)

### Arddangosyn 5: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2021, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) <sup>1</sup>	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwiliad o gyfrifon <sup>2</sup>	178,234	178,234
Gwaith archwilio perfformiad <sup>3</sup>	95,270	95,270
Gwaith ardystio grantiau <sup>4</sup>	32,000	32,121
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy <sup>5</sup>	1,134	1,134
Cyfanswm y ffi	306,638	306,759

- 35 Bydd cynllunio yn barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod gyda'r Cyngor gyntaf.
- 36 Mae rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

### Tîm archwilio

- 37 Mae prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, wedi'u crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

<sup>1</sup> Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad ydych yn cael eich codi amdani.

<sup>2</sup> Yn daladwy o fis Tachwedd 2020 i fis Hydref 2021.

<sup>3</sup> Yn daladwy o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022.

<sup>4</sup> Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud.

<sup>5</sup> Cyd-bwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei wneud ac yn amodol ar lefel y profion sy'n ofynnol.



## Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Swydd	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Derwyn Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	02920 320566	<a href="mailto:derwyn.owen@audit.wales">derwyn.owen@audit.wales</a>
Matthew Edwards	Rheolwr Archwilio – Archwilio Ariannol	07837 385420	<a href="mailto:matthew.edwards@audit.wales">matthew.edwards@audit.wales</a>
David Williams	Arweinydd Archwilio – Archwilio Ariannol	07812 670234	<a href="mailto:david.williams@audit.wales">david.williams@audit.wales</a>
Jeremy Evans	Rheolwr Archwilio – Archwilio Perfformiad	07825 052861	<a href="mailto:jeremy.evans@audit.wales">jeremy.evans@audit.wales</a>
David Wilson	Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad	07580 823691	<a href="mailto:david.wilson@audit.wales">david.wilson@audit.wales</a>

- 38 Mae'r unig fgythytiadau hysbys i annibyniaeth y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt yn ymwneud â Matthew Edwards, y Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) ac aelod o'r tîm, gan fod gan y ddau berthynas a gyflogir gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw waith yn ymwneud â'r gwasanaethau perthnasol a byddant yn cael eu caniatáu yn dilyn asesiad risg yn unig.
- 39 Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fgythytiadau hysbys eraill i annibyniaeth aelodau fy nhîm. Hefyd, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.

## Amserlen

- 40 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 7**. Fel yr amlygwyd yn gynharach, efallai y bydd angen diwygio'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau yn ymwneud â COVID-19.
- 41 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a gwneud gwrthwynebiadau i gyfrifon yr Awdurdod i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau ac i wneud gwrthwynebiadau wrth archwilio yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon a nodir yn Neddf 2004 hefyd. Gallai'r cyfyngiadau COVID presennol gyflwyno cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i hwyluso archwiliad o'r cyfrifon. Felly, nid ydym wedi pennu dyddiad eto ar gyfer arfer hawliau etholwyr a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn cadarnhau dyddiad gyda chi. Rydym yn rhagweld y byddwn mewn sefyllfa i gytuno ar ddyddiad gyda chi ddiwedd mis Mai 2021.

### Arddangosyn 7: Amserlen yr archwiliad

Allbwn arfaethedig	Gwaith a wnaed	Cwblhawyd yr adroddiad
Cynllun Archwilio 2021	Ionawr a Chwefror 2021	Mawrth 2021
<b>Gwaith archwilio Datganiadau Ariannol:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol</li><li>Barn ar y Datganiadau Ariannol</li><li>Memorandwm Cyfrifon Ariannol</li></ul>	Mehefin i Awst 2021	Medi 2021 Medi 2021 Hydref 2021
<b>Gwaith archwilio perfformiad:</b> <ul style="list-style-type: none"><li></li></ul>	Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda chi a'u nodi yn y papurau briffio prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob astudiaeth.	
Gwaith ardystio grantiau	Hydref 2021 i Ionawr 2022	Chwefror 2022
Crynodeb Archwilio Blynyddol	Amherthnasol	Rhagfyr 2021
Cynllun Archwilio 2022	Ionawr a Chwefror 2022	Mawrth 2022





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

**Dyddiad yr Adroddiad** 17 Mawrth 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd,  
Pennaeth Cyllid ac Eiddo

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

**Teitl** Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-20 Cyngor Sir Ddinbych

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019–20 Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae'n amgaaedig. Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2019-20.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn bod yr adroddiad mewnol hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hwn yn flynyddol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2019/20, ac at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2019/20. Mae nifer y grantiau sy'n cael eu harchwilio'n benodol gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi gostwng yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r pedwar sy'n parhau yn gymhleth iawn ac yn cynnwys nifer fawr o drafodion a gwerth. Mae'n braf bod cyfanswm effaith diwygiadau i hawliadau a ffurflenni'r Awdurdod yn fach. Dylid nodi hefyd bod un o'r cymwysterau o ganlyniad i Swyddfa Archwilio Cymru yn methu â chynnal eu gwiriadau arferol oherwydd effaith Covid 19 yn hytrach nag unrhyw beth a ganfuwyd a oedd yn anghywir.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae Cyllid Grant yn hanfodol i ariannu gweithgarwch llywodraeth leol mewn nifer o feysydd. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grant.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2019-20 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu iddo ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n braf nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



# Ardystio Grantiau a Ffurflenni Cysylltiedg 2019-20 – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2311A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r cod yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb

Penawdau

Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

4

5

7

Tudalen 123

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

- 1 O dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os bydd yn ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grantiau, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni cysylltiedig (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant, o hyn ymlaen).
- 2 Gwnaethom ymgymryd â'n gwaith gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:  
'A oes gan Gyngor Sir Ddinbych (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, amserol wedi'u dogfennu'n briodol yn cael eu cynhyrchu?'
- 3 Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac wedi dod i'r casgliad, er bod gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar y cyfan ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ei hawliadau grant 2019-20, bod lle i wella. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2020-21. Mae ein casgliad ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:
  - gweithiodd yr Awdurdod yn agos gyda ni i sicrhau bod amserlen gywir a chyfredol o grantiau 2019-20 ar waith drwy gydol y flwyddyn; a
  - bod lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cyflwyno ei hawliadau grant i'w harchwilio.
- 4 Ar gyfer 2019-20 ardystiwyd pedwar hawliad grant gwerth £69,625,023.
- 5 Cyflwynodd yr Awdurdod 75% (tri allan o bedwar) o'i hawliadau grant 2019-20 i ni ar amser. Gallwn gadarnhau ein bod wedi ardystio'r holl hawliadau, am gyfanswm cost archwilio o £32,121 (Cafodd 9 hawliad grant eu hardystio yn 2018-19 am gyfanswm cost archwilio £59,107 yn 2018-19).
- 6 Roedd dau o'r pedwar hawliad yn amodol (1:2); mae hon yn gyfradd amodi uwch na chyfartaledd hirdymor Cymru, o 1:4.

## Penawdau

### Arddangosyn 1:

<p><b>Cyflwyniad a chefnidir</b></p>	<p><b>Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith ar ardystio hawliadau grant a ffurflenni cysylltiedig 2019-20 yr Awdurdod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel archwilydd penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ardystio hawliadau grant a wneir gan yr Awdurdod.</li> <li>• Ar gyfer 2019-20, gwnaethom ardystio pedwar grant gyda chyfanswm gwerth o £69,625,023.</li> <li>• Rydym wedi darparu <b>Rhestr Wirio</b> Arferion Da cynhwysfawr ar gyfer Grantiau i swyddogion i'w cynnwys ym mhob ffeil hawlio grant. Roedd y <b>Rhestr Gwirio Grantiau</b> yn tynnu sylw at y meysydd allweddol y byddai Archwilio Cymru yn eu hadolygu wrth gyflawni ardystiad archwilydd grant.</li> <li>• Rydym wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn fel y gallwn roi adborth ar y cyd i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli grantiau fel y gallwn gydweithio i nodi gwelliannau pellach y gellir eu gwneud i wella'r prosesau.</li> </ul>
<p><b>Derbyn hawliadau'n brydlon</b></p>	<p>Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 75% o'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn wedi dod i law erbyn y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod yn y telerau ac amodau. Derbyniwyd yr hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai bum niwrnod yn hwyr, ychydig iawn o oedi nad effeithiodd ar y broses ardystio.</p>

<p><b>Canlyniadau ardystio</b></p>	<p><b>Cyhoeddwyd tystysgrifau diamod ar gyfer dau grant a ffurflen gysylltiedig ond roedd amodau'n angenrheidiol mewn dau achos (50%) ar gyfer y Cymhorthdal Budd-dal Tai a Phensiynau Athrawon</b></p> <p>Nodir y rhesymau dros amodi'r ddau grant isod. Gellir grwpio'r materion hyn yn faterion parhaus a'r rhai sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod.</p> <p><b>Materion amodi a adroddwyd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cam-ddosbarthu gwariant Budd-dal Tai.</li> </ul> <p><b>Materion amodi y tu allan i reolaeth yr Awdurdod</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Oherwydd cyfyngiadau teithio yn deillio yn sgil pandemig COVID-19 nid oeddem yn gallu adolygu cyfraniadau misol Pensiynau Athrawon ar gyfer 2019-20.</li> </ul>
<p><b>Addasiadau archwilio</b></p>	<p><b>Roedd angen gwneud addasiadau i ddau o grantiau a ffurflenni cysylltiedig yr Awdurdod o ganlyniad i'n gwaith ardystio fel archwilwyr eleni</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y Cymhorthdal Budd-dal Tai yn destun diwygiadau, gan gynyddu'r balans sy'n ddyledus i'r Awdurdod £123.</li> <li>• Gwnaed dau welliant i'r Ffurflen Ardrethi Annomestig Genedlaethol. Ni chafodd y gwelliannau hyn effaith ar y swm sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru.</li> </ul>
<p><b>Trefniadau'r Awdurdod</b></p>	<p><b>Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni cysylltiedig a chefnogi ein gwaith ardystio.</b></p>
<p><b>Ffioedd</b></p>	<p><b>Ein ffi gyffredinol am ardystio grantiau a ffurflenni cysylltiedig ar gyfer 2019-20 yw £32,121.</b></p> <p>Mae hyn ychydig yn is na'n hamcangyfrif gwreiddiol o £35,000 i £40,000 sydd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Archwilio Blynyddol.</p>

## Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

- 7 Mae'r dudalen ganlynol yn darparu crynodeb o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni cysylltiedig 2019-20 yr Awdurdod, sy'n dangos lle y gwnaed gwelliannau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle bu'n rhaid i ni amodi ein tystysgrif archwilio.
- 8 Mae amod yn golygu bod materion wedi'u nodi ynghylch cydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellid eu datrys drwy addasu. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff perthnasol sy'n talu'r grantiau angen mwy o wybodaeth gan yr Awdurdod i fodloni ei hun bod symiau llawn y grantiau a hawliwyd yn briodol.

### Arddangosyn 2: gwybodaeth allweddol ar gyfer 2019-20

#### Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2019-20

At ei gilydd, ardystiwyd pedwar grant a ffurflen gysylltiedig gennym:

- roedd un yn ddiamod heb welliannau;
- roedd un yn ddiamod ond roedd angen rhywfaint o welliannau i'r ffigurau terfynol;
- roedd angen amod ar un i'n tystysgrif archwilio; ac
- roedd un yn amodol ond roedd angen rhywfaint o welliannau i'r ffigurau terfynol.

**Arddangosyn 3:**

Cyf – Para 8	Grantiau a ffurflenni cysylltiedig	Hawliad yn ddyledu s	Derbyni wyd yr hawliad	Yn hwyr	Tystysgrif amodol	Addasiad (>£10,000)	Addasiad (<£10,000)
BEN01	Cymhorthdal Budd-dal Tai	30/04	05/05	Oedd	Oes	£dim	£123
LA01	Ardrethi Annomestig	29/05	29/05	Na	Nac oes	*£dim	*£dim
PEN05	Pensiynau Athrawon	31/05	29/04	Na	Oes	£dim	£dim
SOC07	Datblygiad Gweithlu Gofal Cymdeithasol	30/09	28/08	Na	Nac oes	£dim	£dim
	<b>Cyfanswm</b>				<b>2</b>	<b>£dim</b>	<b>£123</b>

\* Gwnaed diwygiadau ond dim effaith ariannol ar yr hawliad oherwydd natur y camgymeriad.

9 Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol y tu ôl i bob un o'r addasiadau neu amodau a nodwyd ar dudalennau 5 i 6.



## Arddangosyn 4:

Cyf	Sylwadau cryno	Diwygiad
BEN01	<p>Cymhorthdal Budd-dal Tai a Threth Awdurdod</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nododd profi Pennawd Cell 11 un achos lle'r oedd gwariant ar fudd-dal tai wedi'i ddsbarthu'n anghywir o fewn Cell 13 o'r Ffurflen Gymhorthdal gan arwain at addasiad cyfrannol i Gell 12 a Chell 13 o £123 a chynyddu'r balans sy'n ddyledus i'r Awdurdod.</li> <li>Nododd Pennawd Cell 94 un achos lle'r oedd y rhwymedigaeth rhent wedi'i chapio'n anghywir ar gyfradd ystafelloedd a rennir Lwfans Tai Lleol, gan arwain at dandalu'r budd-dal tai. Lle mae budd-dal tai wedi ei dandalu, nid oes unrhyw effaith ar faint o gymhorthdal sydd i'w hawlio oherwydd ni ellir hawlio cymhorthdal ar fudd-dal nad yw wedi'i ddyfarnu. Felly, nid yw wedi'i ddsbarthu fel camgymeriad at ddibenion cymhorthdal.</li> <li>Mae'r Materion hyn wedi'u hadrodd i'r Adran Gwaith a Phensiynau.</li> </ul>	£123
LA01	<p><b>Ardreth Annomestig Genedlaethol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwnaed addasiad cyfrannol o £8,065 i linell 5 a llinell 6.5 o'r Ffurflen Gysylltiedig.</li> <li>Gwnaed addasiad o £273,000 i'r Gwerth Ardrethol Cyfanredol a ddatgelwyd yn llinell 43 o'r Ffurflen Gysylltiedig. Eitem memorandwm yw hon ac nid yw'n effeithio ar y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod.</li> <li>Adroddwyd ar y materion hyn i Lywodraeth Cymru.</li> <li>Ni wnaethant effeithio ar y swm sy'n daladwy i Lywodraeth Cymru gan yr Awdurdod.</li> </ul>	£dim

Cyf	Sylwadau cryno	Diwygiad
PEN05	<b>Pensiynau Athrawon</b> <ul style="list-style-type: none"><li>Oherwydd cyfyngiadau teithio yn deillio o bandemig COVID-19 nid oeddem yn gallu adolygu'r ffurflenni cyfraniadau misol ar gyfer 2019-20. Yn hytrach, gwnaethom ddibynnu ar dystiolaeth arall a ddarparwyd gan yr Awdurdod nad oedd yn darparu'r un lefel o sicrwydd ag y byddem fel arfer yn ei gael o adolygiad o'r ffurflenni cyfraniadau misol.</li></ul>	£dim
	<b>Cyfanswm effaith diwygiadau i hawliadau a ffurflenni cysylltiedig yr Awdurdod</b>	<b>£123</b>

Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Gwefan: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

We welcome correspondence and  
telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a  
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

**Dyddiad yr Adroddiad** 17 Mawrth 2021

**Aelod Arweiniol / Swyddog:** Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd,  
Pennaeth Cyllid ac Eiddo

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

**Teitl** Crynodeb Archwilio Blynyddol, gan Swyddfa Archwilio Cymru

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac anfonwyd at Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor. Yn y gorffennol, roedd hwn ar ffurf Y Llythyr Archwilio Blynyddol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno, er gwybodaeth, y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, gan Swyddfa Archwilio Cymru (Atodiad 1). Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019. Mae'r crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Crynodeb Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno canfyddiadau a negeseuon canolog. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn croesawu'r crynodeb ac yn edrych ymlaen at barhau'r berthynas waith ardderchog sydd gennym gyda'n Harchwilwyr Allanol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae darparu gwybodaeth ariannol amserol a chywir yn cyfrannu at foderneiddio'r cyngor er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac yn caniatáu i breswylwyr graffu ar weithgareddau'r Cyngor.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Barn broffesiynol y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yw rhan olaf darparu sicrwydd bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn rhoi barn wir a theg ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'n braf nodi eto bod yr archwiliad yn ddiamod.

9.2 Mae'r llythyr yn amlygu'r amgylchedd ariannol anodd parhaus mae'n rhaid i'r Cyngor weithio ynddo, fel pob llywodraeth leol ar draws Cymru a'r DU. Mae Aelodau'r Cabinet a'r Cyngor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar gynigion y Cyngor i ddelio gyda'r sefyllfa.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg yn y pen draw yw nad yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei gynhyrchu'n brydlon, neu eu bod yn cael eu cynhyrchu gyda gwallau materol a/neu sylweddol ynddynt a fyddai'n golygu bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cymhwyso'r cyfrifon. Byddai canlyniad o'r fath yn cael effaith andwyol ddifrifol ar enw da Cyngor Sir Ddinbych.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae'r llythyr yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Swyddfa Archwilio Cymru o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'u cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Yn benodol mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau gwaith archwilio'r cyfrifon.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Cyngor Sir Ddinbych

### Crynodeb archwiliad blynyddol 2020

Dyma grynodeb o'n harchwiliad ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019. Mae'r crynodeb o'n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein [gwefan](#).

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



#### Ffeithiau allweddol

Mae gan y Cyngor 47 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Ceidwadwyr Cymreig 15
- Annibynnol 11
- Llafur 11
- Plaid Cymru 9
- Sedd wag 1

Gwariodd y Cyngor £207.4 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2019-20, sef y seithfed gwariant isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Cyngor £36.4 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn y gellir eu defnyddio. Mae hyn yn cyfateb i 18% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, sef yr 11eg safle (cydradd â chynghor arall) o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

## Ffeithiau allweddol

Bernir bod saith (12%) o'r 58 ardal o fewn Cyngor Sir Ddinbych ymhlith y 10% ardal mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef y seithfed uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru<sup>1</sup>.

Rhagwelir y bydd poblogaeth y sir yn cynyddu 2.8% rhwng 2020 a 2040 o 95,655 i 98,365, gan gynnwys cwmp o 9.1% yn nifer y plant, cwmp o 4.8% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 29.4% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd<sup>2</sup>.

## Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

### Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo'n briodol.

- **Gwerth am arian**

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.

- **Gwelliant parhaus**

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith hefyd i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny).

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

<sup>1</sup> Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

<sup>2</sup> Ffynhonnell: Stats Cymru



Ers Gwanwyn 2020, mae'r pandemig parhaus wedi effeithio ar ein gwaith archwilio. Rydym yn cydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac wedi ail-lunio ein rhaglen waith a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i leihau ei effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.



Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

### Archwiliad o Gyfrifon 2019-20 Cyngor Sir Ddinbych

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

#### Ar gyfer 2019-20:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamed wir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 15 Medi 2020, yn unol â'r dyddiad cau statudol. Roedd adroddiad yr archwilydd hefyd yn cynnwys pwyslais ar fater yn disgrifio cymalau ansicrwydd prisio perthnasol mewn adroddiadau prisio ar eiddo'r Cyngor ac ar Gronfeydd Eiddo ar y Cyd a ddelir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. Achoswyd y rhain gan bandemig COVID-19.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2020 yn dda. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol o ystyried yr heriau digynsail a achoswyd gan bandemig COVID-19.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol ar 9 Medi 2020.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau ar 16 Medi 2020.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'n gyfrifol am ardystio nifer o ffurflenni a hawliadau grant hefyd. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol.
- Mae ffeithiau a ffigurau allweddol o ddatganiadau ariannol 2019-20 ar gael [yma](#).

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Casglu gwastraff cartrefi (Tachwedd 2019)

Roedd yr archwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2019-20 yn ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i adolygu'r broses o gasglu gwastraff cartrefi, gan gefnogi'r amcan llesiant o ddarparu amgylchedd deniadol sydd wedi ei warchod. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth gymryd camau i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ymgorffori ymhellach y pum ffordd o weithio yn ei benderfyniadau a'i waith cynllunio. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Gwelliant Parhaus

Ar dystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliannau, ac mae'n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21.

## Cynaliadwyedd Ariannol (Mawrth 2020)

Yn ystod 2019-20, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor Sir Ddinbych, daethom i'r casgliad bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf ond mae angen iddo gryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli rhywfaint o orwario mewn gwasanaethau i gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ganfyddiadau ymarfer paru data diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru. Roedd yr ymarfer yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y 22 awdurdod unedol, i nodi twyll a gordaliadau gwerth £8 miliwn. Mae'r adroddiad ar gael [ar ein gwefan](#). Mae'r Fenter yn parhau i gael ei datblygu, ac yn yr ymarfer NFI arfaethedig (NFI 2020-22), bydd gan awdurdodau lleol fynediad at ddata sydd wedi'i baru er mwyn helpu i nodi ceisiadau twyllodrus posibl ar gyfer grantiau cymorth busnes COVID-19.

## Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu (Awst 2019)

Yn ystod 2019-20, buom yn archwilio trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn Sir Ddinbych. Daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella monitro ac adrodd ar berfformiad. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Pwysau ar gyllideb gwasanaethau cymdeithasol (Awst 2020)

Yn ystod 2019-20, buom yn archwilio gwaith partneriaeth wrth gomisiynu ac ariannu gofal preswyl a llety cartrefi nyrsio i bobl hŷn yn Sir Ddinbych. Daethom i'r casgliad nad yw'r Cyngor wedi gallu manteisio i'r eithaf ar fanteision posibl gweithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu a gweinyddu lleoliadau gofal cartrefi preswyl a nyrsio. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Arolygiaethau Eraill

Ystyriwyd adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn hefyd, ynghyd ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Ym mis Mai 2019, fel rhan o adolygiad cenedlaethol o ba mor dda y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion rhag cynyddu, arweiniodd AGC arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn y Cyngor, mewn cydweithrediad ag Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC). Mae'r adroddiad ar gael [yma](#). Cyhoeddodd AGC llythyr Adolygu Perfformiad Awdurdod Lleol hefyd. Mae'r llythyr ar gael [yma](#). Ni chafwyd unrhyw arolygiadau eraill gan Gyngor Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod hwn, ond bu Estyn yn arolygu ysgolion lleol fel arfer, ac roedd gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC yn Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

### Effeithiolrwydd awdurdodau Cynllunio Lleol (Mehefin 2019)

Adolygwyd cynnydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Rydym yn dod i'r casgliad nad yw Awdurdodau Cynllunio yn ddigon gwydn i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a'r her o reoli system gymhleth. Gellir gweld yr adroddiad llawn [yma](#).

### Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol (Medi 2019)

Ystyriwyd effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Er bod cynghorau'n atal y galw am ofal cymdeithasol, canfuwyd nad yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

### Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Hydref 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu cylch gorchwyl, amllder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent yn cyd-fynd â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Daethom i'r casgliad nad yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn debygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

### Cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Tachwedd 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael eu cyflwyno a'u cyflawni. Gwelwyd bod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu methu yn aml gan system anghyson, gymhleth a thameidiog. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (Gorffennaf 2020)

Edrychwyd ar ba mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i fater cysgu allan. Yn gyffredinol, gwelwyd fod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â chysgu allan yn y gorffennol. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Deddfu Gwell (Medi 2020)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio pum adroddiad a gyhoeddwyd rhwng 2019 a heddiw yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o weithredu deddfwriaeth newydd. Mae rhoi deddfwriaeth ar waith yn dasg gymhleth, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd roi ystyriaeth fanwl i'r dasg hon pan fyddant yn cynnig ac yn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'r papur yn tynnu sylw at yr anawsterau a wynebier gan awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus wrth weithredu eu cyfrifoldebau newydd. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (Hydref 2020)

Mae cynghorau wedi ymgymryd â gweithgarwch masnachol ar ryw ffurf ers amser maith, ac mae llawer o gynghorau'n archwilio cyfleoedd masnachol ychwanegol i liniaru yn erbyn y pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu. Mae'n hadroddiad wedi'i anelu'n benodol at helpu aelodau etholedig ac uwch-swyddogion i archwilio a dyfarnu ar yr effaith bosibl ar eu sefydliadau wrth ystyried a ddylid ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio. Bydd hefyd yn helpu cynghorau i ddangos pa mor dda y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau o safbwynt sicrhau gwerth am arian. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

## Gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2020-21

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r cyngor. Gallai'r risgiau hyn effeithio ar allu'r cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y defnydd o'i adnoddau a gwelliant parhaus.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2020-21 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae ein cynllun gwaith ar gyfer 2020-21 yn cynnwys:

- Cynllunio adferiad mewn ymateb i bandemig COVID-19
- Prosiect dysgu COVID – helpu i nodi a rhannu dysgu o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r pandemig
- Sicrwydd ac asesu risg
- Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor
- Adolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

28 Ebrill 2021		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democraataidd
		<b>Adroddiadau</b>	
	5	Proses y Gyllideb	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
	6	Adroddiad Archwilio Mewnol 2021-22	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	7	Archwiliad Mewnol o'r Tenantiaethau Tai (adroddiad dilynol)	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
Tudalen 6	8	Archwiliad Mewnol o'r Diwydiant Cardiau Talu	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	9	Archwiliad Mewnol o Daliadau Uniongyrchol i Blant (gan gynnwys astudiaethau achos)	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
Mehfin 2021		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
Tudalen 145	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democraataidd
		<b>Adroddiadau</b>	
	4	Datganiad Cyfrifon	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
	5	Cynllun Archwilio Blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
	6	Adroddiad Blynnyddol Archwilio Mewnol	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	7	Diweddariad ar Reoli Contractau	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove

## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

<b>28 Gorffennaf 2021</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democraidaidd
		<b>Adroddiadau</b>	
	5	Rheoli'r Trysorlys	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
Tudalen 146	6	Polisi Gwrth-Dwyll a Llygredd	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	7	Datganiad Cyfrifon Drafft	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
<b>22 Medi 2021</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democraidaidd
		<b>Adroddiadau</b>	
	5	Adroddiad dilynol Pwysau Costau Cyllidebol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Swyddfa Archwilio Cymru
	6	Incwm Parcio	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	7	Datganiad Cyfrifon Terfynol	Pennaeth Cyllid - Steve Gadd
<b>24 Tachwedd 2021</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Craffu (os oes rhai)	Cydlynnydd Craffu - Rhian Evans

## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		<b>Adroddiadau</b>	
	5		
	6		
	7		
<b>EITEMAU'R DYFODOL</b>			
Tudalen 148	1	Cynllun gweithredu wedi ei ddiweddarau o'r Adroddiad Rhannu Pryderon	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
	2	Deddf Llywodraeth Leol	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

Nid yw union ddyddiad cyhoeddi adroddiadau achlysurol gan er enghraifft Swyddfa Archwilio Cymru neu Adroddiadau Blynnyddol gan yr Ombwdsmon yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd dyddiad cyfarfod yn cael ei neilltuo ar eu cyfer cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Dyddiad Diweddarau: 02/03/2021 SJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 18 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 18 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag